AM DDIM

Cyfnodolyn Synod Cymru Yr Eglwys Fethodistaidd

Rhifyn 227 Rhagfyr 2020 – Ionawr 2021

# Gwyliedydd



# O'R GADAIR AR Y GOROR

gan y Parchedig **Jennifer Hurd**




Mae'n mynd i fod yn Nadolig gwahanol. Mae pob Nadolig yn wahanol, wrth gwrs, ond byddwch yn deall beth sydd gen i. Bûm yn cofio am wahanol Nadoligau yn hanes fy nheulu – 1970, er enghraifft, yn dilyn marwolaeth fy nhad, pan aethon ni i aros efo teulu fy ewythr ac y gwelais deledu lliw am y tro cyntaf, yn nhŷ ei fos! A'r un pan aethon ni i aros mewn gwesty (byth eto!), a'r un yn dilyn marwolaeth fy mam-yng-nghyfraith. Daeth teulu chwaer y gŵr i aros efo ni, a fy mam hefyd, a theimlais i mor anesmwyth oherwydd fi oedd yr unig oedolyn yno efo rhiant yn dal yn fyw, oedd yn brofiad anarferol iawn. Bydd eraill yn cofio'r Nadolig cyntaf ar ôl iddynt briodi, neu ar ôl iddynt gael babi newydd. Mae pob Nadolig yn wahanol, ac eto, yr un ŵyl yw hi, oherwydd fydd yr hyn rydym yn ei ddathlu byth yn newid. Y Nadolig cyntaf oedd yr un mwyaf gwahanol ohonyn nhw i gyd! Bryd hynny, meddai Luc, "Aeth pawb felly i'w gofrestru, pob un i'w dref ei hun". Sut brofiad oedd hyn? Beth am i ni geisio dychmygu, yng nghwmni un oedd, efallai, yno ar y pryd…

"Helo bawb, Joab ydw i. Dw i'n perthyn i dŷ a theulu Dafydd, felly dw i newydd ddod yn ôl o Fethlehem. Am daith! Gorfod mynd yno o achos y Rhufeiniaid, wrth gwrs. O! mae pobol Galilea yn eu caru nhw! Fel pla ym mhob man – fel haint. Gorfod ufuddhau iddyn nhw a chael ein gorfodi i wneud pethau fel cario eu paciau. Maen nhw'n ein blingo efo'u trethi. Yn ein poenydio a'n lladd. Y peth gwaethaf un ydi eu bod nhw'n gwneud ein crefydd yn aflan trwy feddiannu ein gwlad, a dydyn nhw ddim yn parchu nac yn credu yn Nuw, yr Arglwydd Iôr. Maen nhw wedi gwneud bywyd yn ddiflas ac yn beryglus ac rydyn ni'n garcharorion yn ein gwlad ein hunain. Does dim golwg y byddan nhw'n hel eu traed o'ma, chwaith. Dyn ni'n byw o dan ormeswyr, a dyna pam roedd rhaid i mi fynd i Fethlehem. Roedd y Rhufeiniaid am ein cyfrif ni, ein cofrestru ni. Pam? Trethiant arall? Dwn i ddim, ond roedd rhaid i mi fynd fel pawb arall.

"Roedd y dref yn llawn, a neb yn hapus – pawb yn cwyno, pawb yn ddiflas. Dyn ni wedi colli ein rhyddid o achos y Rhufeiniaid melltigedig ma, ac roedd y rhan fwyaf ohonom ni oddi cartref, wedi cael ein gwahanu oddi wrth anwyliaid. Dim syndod bod pawb mor flin! Weithiau, dw i'n meddwl bydd na wrthryfel, ond maen nhw'n gryf ac yn bwerus a chreulon, y Rhufeiniaid ma. Na, fydd na ddim. Fel un sydd o dŷ a theulu Dafydd, dw i'n rhoi fy ffydd yn addewidion Duw am ddyfodiad y Meseia. Does dim gobaith arall. Mae Duw yn cadw ei addewidion, ond o! mae'n cymryd ei amser i'w cyflawni!

"Felly, dyma ni, ym Methlehem, a'r tensiwn i'w glywed ym mhob man. Rhyw awyrgylch fel petai rhywbeth eithriadol am ddigwydd. Chlywais i am ddim byd yn y diwedd, ar wahân i ryw si am fabi'n cael ei eni. Dim byd allan o'r cyffredin yn hynny, ond ym Methlehem? Adeg y cyfrifiad? A'r lle fel ffair. Bachgen bach, medden nhw. Bydd pawb yn cofio lle a phryd gafodd o ei eni, reit siŵr! Roedd yna ryw sôn am oleuni yn yr awyr a chanu anhygoel, nefolaidd, yng nghanol nos hefyd, ond dwn i ddim am hynny. Dywedodd rhywun fod bugeiliaid wedi dod i lawr i'r dref o'r bryniau, tua'r un un amser, sydd hefyd yn od. Mae'r rheini bron mor aflan â'r Rhufeiniaid ac yn tueddu i gadw draw oddi wrth bawb arall, diolch am hynny, y criw drewllyd! Dw i hyd yn oed wedi clywed fod wnelo hyn i gyd rywbeth efo Joseff, sy'n perthyn rhywbeth i mi. Y peth yw, bob amser dw i'n meddwl am Fethlehem, dw i'n cofio geiriau'r proffwyd Micha: "Ond ti, Bethlehem Effrata, sy'n fechan i fod ymhlith llwythau Jwda, ohonot ti y daw allan i mi un i fod yn llywodraethwr yn Israel, a'i darddiad yn y gorffennol, mewn dyddiau gynt." Sôn mae o am y Meseia, siŵr o fod, ac mae Duw yn cadw ei addewidion. Dyn a ŵyr, mae arnom ni angen Meseia rŵan. Dwn i ddim, ond os gwnawn ni ymddiried yn Nuw, wneith o ein rhyddhau ni o afael y Rhufeiniaid? Dw i'n credu y gwneith o – ac o afael popeth arall sy'n ein gormesu a'n niweidio. Mi ddaw. Byddwn ni'n rhydd. Am byth."

Rhyddid Baban Bethlehem i chi. Tangnefedd yr Ŵyl.

# Gwyliedydd

**CYFNODOLYN SYNOD CYMRU**
**YR EGLWYS FETHODISTAIDD**
Sefydlwyd 1877 – Cyfres Newydd 1987

**RHIF 227**
**RHAGFYR 2020 – IONAWR 2021**

Cyhoeddir 6 rhifyn y flwyddyn – am ddim i aelodau a chyfeillion Synod Cymru. 6 rhifyn drwy'r post £5.

**BARN Y CYFRANWYR UNIGOL A FYNEGIR YN YR EITEMAU UNIGOL**

**GOLYGYDDION**
**ROBIN JONES**
LLYS ALAW,
18 STAD ERYRI
BETHEL,
CAERNARFON
GWYNEDD LL55 1BX
Ffôn 01248 670140
Ffôn symudol 07780 869907
e-bost robinbethel@tiscali.co.uk

**FFION ROWLINSON**
CRUD YR AWEL
LÔN NEWYDD COETMOR
BETHESDA,
GWYNEDD
LL57 3DT
Ffôn 01248 605365
Ffôn symudol 07554 958723
e-bost ffion.rowlinson@trysor.f9.co.uk

**DYDDIAD CAU**
4 IONAWR 2021

Dylid gwneud sieciau yn daladwy i "Yr Eglwys Fethodistaidd – Talaith Cymru"

Dyluniwyd gan Elgan Griffiths
Argraffwyd gan Wasg y Lolfa

Llun y clawr gan flaperval:
Y Geni gan Pietro Dufour, Chiesa di San Lorenzo, Torino

## Rhoddion

Diolch yn fawr iawn am bob rhodd a dderbyniwyd tuag at gostau cyhoeddi a dosbarthu'r *Gwyliedydd*. Gwerthfawrogwn eich cefnogaeth yn fawr iawn.

| | |
|---|---|
| Dienw | £20.00 |
| Salem, Pentre Helygain | £30.00 |
| Eglwys Gydenwadol Llangollen | £20.00 |
| Mrs Iola Davenport, Dolgellau | £20.00 |
| Mrs M. Griffith, Y Drenewydd er cof am ei diweddar ŵr y Parchg Ronald Griffith | £25.00 |
| **Cyfanswm** | **£115-00** |

## Dyfodol Synod a Chylchdaith Cymru

Ar 7 Tachwedd 2020 cynhaliwyd Synod y Dalaith dros Zoom a gofynnwyd i'r rhai a gymerodd ran bleidleisio dros naill ai Opsiwn 1 neu Opsiwn 2, sef y ddau gynnig a amlinellwyd yn y ddogfen drafod, *Gweithio tuag at Synod newydd ar gyfer yr Eglwys Fethodistaidd yng Nghymru*. Pleidleisiodd 18 dros Opsiwn 1 a 7 dros Opsiwn 2. Mae hyn yn golygu mai'r bwriad o hyd yw gweithio tuag at greu un Dalaith (Synod) gan uno'r gwaith Cymraeg a'r gwaith Saesneg yng Nghymru, ac y bydd Cylchdaith Cymru yn dal i fodoli ond gyda chyllideb fach iawn. Bydd gwybodaeth lawn am yr hyn sy'n digwydd yn rhifyn nesaf y *Gwyliedydd*.

## Diolch yn fawr

Dymuna'r Parchedig Gwilym O Jones ddiolch yn fawr iawn i'w holl ffrindiau am y cardiau pen-blwydd, galwadau ffôn ac anrhegion a dderbyniodd ar ddathlu pen-blwydd arbennig yn ei hanes. Diolch diffuant ichwi oll, a chofion at bawb ar yr adeg anodd yma.

## Gwellhad buan

Dymunwn wellhad buan i Bet Holmes. Mae dy holl ffrindiau yn Synod Cymru yn dymuno gwellhad i ti, Bet, ac yn cofio'n gynnes iawn atat.



Yn y flwyddyn newydd bydd y Cadeirydd yn pregethu, os bydd yr amgylchiadau a'r cyfyngiadau yn caniatáu, yn Ardaloedd Dyffryn Clwyd (3 Ion); Llanrhaeadr (10 Ion); Morgannwg (17 Ion); Bathafarn (24 Ion), Dyffryn Conwy (31 Ion). Yna Môn ac Arfon (7 Chwef), Ceredigion (21 Chwef) a'r Trallwng a De Gwynedd (28 Chwef).

Boed bendith ar yr holl waith caled y mae Jennie'n ei wneud a'i holl ofal trosom fel Cadeirydd y Dalaith. Nadolig Llawen i chi, Jennie, ac i holl ddarllenwyr y *Gwyliedydd* ym mhob man.

# Cnoi Cil

gan Gwyndaf Roberts

Ni ellir gadael i'r flwyddyn 2020 lithro heibio heb nodi ei bod hi eleni yn 400 mlynedd ers cyhoeddi Beibl Cymraeg 1620, sef gwaith yr Esgob Richard Parry a'r Dr John Davies, Mallwyd. Roedd Beibl 1588 William Morgan yn gampwaith aruthrol ond fe ddylid cydnabod hefyd lafur enfawr William Salesbury yn cyhoeddi Llyfr Gweddi Gyffredin Cymraeg ym Mai 1567 a'r Testament Newydd Cymraeg yn Hydref yr un flwyddyn.

Beibl ar gyfer ei ddarllen yn yr Eglwys oedd un William Morgan ond roedd wedi ei siomi gan y gwallau argraffu ynddo. Ei fwriad oedd cyhoeddi fersiwn cywirach ond er iddo gwblhau'r gwaith, collwyd y llawysgrif pan ffodd yr argraffydd o Lundain oherwydd Pla 1603. Bu farw William Morgan ym Medi 1604 ac aeth y dasg o ddiwygio ei Feibl yn her i eraill.

Llyfr ar gyfer ei ddefnyddio yn yr eglwysi oedd Beibl 1620 hefyd ond erbyn 1630 argraffwyd y Beibl Bach a'i werthu am goron. Rowland Heylin, disgynnydd o un o hen deuluoedd Powys, a fu'n gyfrifol gyda Syr Thomas Middleton am ariannu'r Beibl Bach. Ymhlith cymwynasau eraill y gwŷr cyfoethog hyn roedd Geiriadur Cymraeg/Lladin John Davies a Salmau Cân Edmwnd Prys 1621. Erbyn 1630 felly roedd gan siaradwyr y Gymraeg nid yn unig y Beibl ond y peth nesaf i Lyfr Emynau a fyddai'n hybu addoliad Protestannaidd hyd nes byddai Emynau'r ddeunawfed ganrif yn cael eu cyfansoddi. Ni fyddai ymddangosiad yr enwadau Cymraeg sy'n bodoli heddiw wedi bod yn bosib heb y Beibl a ysgogodd bobl i ddarllen a datblygu eu syniadau am natur eglwys a lle'r credadun yn y drefn ddwyfol. Priodol felly yw edrych ar yr hyn a etifeddwyd gennym trwy ein hen deidiau anghydffurfiol.

Ymgorfforwyd yr eglwys annibynnol gyntaf yn Llanfaches, Sir Fynwy, yn 1639 o dan arweiniad Walter Cradoc. Y capeli cyntaf a godwyd oedd rhai Brynberian a Cross Street, y Fenni. Yn fuan iawn sefydlwyd y cyrddau chwarter a bu'r rhain yn gymorth mawr i hwyluso cydweithio rhwng yr eglwysi. Enwad Calfinaidd oedd yr Annibynwyr o ran diwinyddiaeth ond erbyn 1850 roedd y Sustem Newydd sef ffurf ar Galfinyddiaeth fodern wedi'i sefydlu yn eu plith. Datblygiad pellach oedd ffurfio Undeb yr Annibynwyr Cymreig yn 1872 er nad oedd pawb yn fodlon ar y drefn newydd. Mae sofraniaeth yr eglwys leol yn dal i fod yn rhan annatod o drefn yr Annibynwyr hyd heddiw.

Calfinaidd o ran diwinyddiaeth oedd Bedyddwyr Cymru. Yr eglwys gyntaf a sefydlwyd oedd yn Llanilltud Gŵyr o dan arweiniad John Miles yn Hydref 1649. O'r dechrau rhoddwyd pwyslais ar fedydd credinwyr ac roedd eglwysi rhydd-gymunol a chaeth-gymunol yn rhan o'u patrwm. Bu ganddynt gwrdd misol a chwrdd chwarter i hybu'r gwaith ond ymhen amser daeth y Cymanfaoedd a'u gweithgaredd yn fwy amlwg. Yna yn Awst 1866 sefydlwyd yr Undeb yn Llanwenarth i fod yn undeb o eglwysi a chymanfaoedd yn cyfarfod yn flynyddol drwy gynrychiolwyr.

Pan gafodd Hywel Harris dröedigaeth yn 1735 dechreuodd bregethu a chynghori tu allan i'r eglwys sefydledig. Daeth y seiat yn ganolbwynt ym mywyd crefyddol y Methodistiaid cynnar a dechreuwyd adeiladu tai seiadau yn 1741. Ymrannwyd o Eglwys Loegr yn 1811 a mabwysiadwyd Cyffes Ffydd yn 1823 ac agorwyd Coleg y Bala yn 1839. Yn 1864 cynhaliwyd y Gymanfa Gyffredinol gyntaf yn Abertawe. Gweinyddir yr enwad drwy'r Henaduriaethau, y Gymdeithasfa (Sasiwn) a'r Gymanfa Gyffredinol.

Daeth Wesleaid yn swyddogol i Gymru yn 1800 ac erbyn 1858 roedd ganddynt 33 o gylchdeithiau Cymraeg a Saesneg dan ofal 68 gweinidog a 252 o bregethwyr cynorthwyol. Erbyn ein dyddiau ni, y Cyfarfodydd Ardal a Chylchdaith, y Synod a'r Gynhadledd Fethodistaidd yw'r cyrff llywodraethol. Er mai plant y Diwygiad Methodistaidd oedd y Presbyteriaid a'r Wesleaid, nid oedd cytundeb athrawiaethol rhyngddynt. Roedd George Whitfield yn dilyn John Calfin a ddaliai mai rhai yn unig oedd wedi'u hethol i achubiaeth tra bo Wesley yn glynu wrth syniadau Jacob Arminius a ddywedai fod Rhad Ras ar gael i bawb oedd yn ei dderbyn.

Heddiw, beth bynnag yw ein henwad, mae'r dystiolaeth Gristnogol yn dod drwy waith aelodau eglwysi a chapeli lleol. Os bydd y rhain yn methu yna fydd dim diben i fodolaeth Undeb, Cymanfa, Cynhadledd, Henaduriaeth, Corff Llywodraethol na Synod.



# Agor Llygaid

Ac wele, ar fore llwyd o hydref, daeth angylion ataf drwy gyfrwng *Zoom*. Troesant eu hwynebau ataf ac roeddent yn hardd, mor hardd â phren eboni. Roedd urddas yn eu gwedd a gwawr o gariad yn eu llygaid.
Ac meddai un o'r angylion wrthyf, *"Mae'n fis hanes pobl dduon. Mae'r Penllywydd eisiau i ti ymddiheuro am gamweddau'r gorffennol yn eu herbyn".*
Dychrynais o glywed neges yr angylion. Cuddiais fy llygaid rhagddynt ac meddwn wrthynt, *"Ymddiheuro?! Beth sydd gan hynny i wneud â mi? Rydw i'n byw yma yng Nghymru wen, Cymru lonydd, yn ddyn gwyn o'r dosbarth canol ac yn freintiedig fy myd. Beth sydd gan hanes pobl dduon i'w wneud â mi?"*

*"Llawer,"* meddai'r angel, *"llawer iawn".*

*"Ond,"* meddwn innau ar ei thraws, *"yma yng ngorllewin ein gwlad, ymhell bell o'r ddinas aml ei hil ac aml ei diwylliant, does fawr neb ohonom yn ddu ein crwyn – heblaw am Abdul a'i deulu yn y bwyty lawr yr hewl. Ni, y siaradwyr Cymraeg, yw'r lleiafrif ethnig sydd dan orthrwm yma. Beth sydd gan hyn oll i'w wneud â mi?"*

*"Taw! Ac agor dy lygaid,"* meddai'r angel. Ac yn sydyn fe atgoffaodd yr angylion fi o fyrdd o bethau:

- Fy mod i'n hoff o de a choffi a mod i'n cymryd siwgr i'w melysu.
- Bod cotwm yn gyfforddus i'w wisgo.
- Bod yna gangen o'n teulu yn Sir Fôn sy'n cefnogi Everton am fod ein cyndadau wedi cael gwaith yn nociau Lerpwl.
- Bod teulu'r wraig wedi ymfudo o Swydd Gaerhirfryn i gwm glofaol yn y De ar ôl i'r ffatrïoedd cotwm yno gau.
- Bod fy hen-fodryb gapelgar, heddwch i'w llwch, yn casglu elusen cenhadaeth yn flynyddol 'at y blacs'.
- Fy mod i wedi canu mewn capel am 'gannu Ethiop du yn wyn'.
- Bod yna gasgliad o fathodynnau yn yr atig – amryfal gymeriadau croenddu *Robertson's jam*.
- Fy mod i wedi gwneud jôc rywdro am Gymru du-Gymraeg.
- Fy mod i wedi bod yn araf iawn yn herio hiliaeth ffwrdd-â-hi ambell 'gymeriad' o gymydog.
- Fy mod i'n dueddol o wfftio rapwyr.
- Bod gen i berthynas yn America sy'n llawer rhy barod i ladd ar dlodion du ei *neighbourhoods* lleol.
- Nad ydw i erioed wedi cydweithio â pherson croenddu.
- Nad ydw i'n adnabod unrhyw berson du sy'n ymwneud â chapel, cyfundeb nac enwad.
- Bod y syniad wedi croesi fy meddwl pa ddiwrnod, am eiliad, bod bywydau pawb yn bwysig.
- Fy mod yn ddyn gwyn o'r dosbarth canol ac yn freintiedig fy myd.

Ac meddai'r angylion drachefn, yn un côr, *"Ar ôl i ti agor dy lygaid, mae'r Penllywydd eisiau i ti agor dy galon hefyd".*
Diflannodd yr angylion a chafwyd goleuni mawr.

GYDA DIOLCH I CRISTNOGAETH 21. DEFNYDDIR TRWY GANIATÂD.

# Ludwig Van Beethoven (1770-1827) a byw gyda byddardod

gan Gareth Blainey

"Rydw i'n teimlo trueni dros Beethoven, ond mae ei gerddoriaeth yn rhodd anferth i ddynoliaeth."

Dyna gyfieithiad o sylw wnaeth yr arweinydd cerddorfa uchel ei barch o Hwngari Ivan Fischer yn ystod y rhaglen deledu olaf mewn cyfres o dair ar sianel 'BBC Four' yn gynharach eleni. 'Being Beethoven' oedd teitl y gyfres, a fanylodd ar fywyd a gwaith Ludwig van Beethoven, sy'n cael ei ystyried yn un o'r cyfansoddwyr gorau a mwyaf dylanwadol yn hanes cerddoriaeth glasurol. Darlledwyd y rhaglenni i nodi fod 250 o flynyddoedd ers ei enedigaeth yn ninas Bonn yn Yr Almaen. Does dim cofnod o'i ddyddiad geni ond cafodd ei fedyddio ar 17 Rhagfyr 1770 a'r gred yw ei fod wedi'i eni y diwrnod cynt.

Rydw i'n deall yn iawn pam fod gan Fischer drueni drosto ar ôl imi wylio'r tair rhaglen deledu a darllen dau lyfr amdano, sef 'Beethoven : A Life In Nine Pieces' gan Laura Tunbridge sy'n Athro Cerdd ym Mhrifysgol Rhydychen a 'Beethoven : The Man Revealed' gan y darlledwr John Suchet sy'n awdur chwe llyfr am y cyfansoddwr. Syrthiodd Beethoven mewn cariad nifer o weithiau ond methodd â denu merch i'w briodi. Wrth iddo dyfu'n hŷn doedd o'n poeni fawr ddim am lendid. Ar ôl iddo fynd am dro a cholli'i ffordd cafodd ei arestio gan yr heddlu mewn camgymeriad ar amheuaeth o fod yn gardotyn a phan ymwelodd cyfansoddwr adnabyddus arall, Gioachino Rossini, â'i gartref cafodd sioc o weld fod Beethoven yn byw mewn budreddi.

Bu hefyd yn byw gyda byddardod am bum mlynedd ar hugain. Yn 1802 sylweddolodd ei fod yn colli ei glyw, erbyn 1817 roedd yn hollol fyddar ac yn 1824 cafodd brofiad chwerw-felys adeg perfformiad cyntaf un o'i gampweithiau – ei symffoni olaf, y Nawfed, sydd â'r llysenw y 'Symffoni Gorawl' oherwydd bod ei symudiad olaf yn cynnwys rhannau i gôr ac i bedwar unawdydd. Michael Umlauf arweiniodd y perfformiad ond mynnodd Beethoven sefyll o flaen y gerddorfa a'r cantorion fel pe bai o'n eu 'harwain' er nad oedd yn gallu eu clywed. Pan orffennodd y perfformiad roedd o'n dal i 'arwain' ac aeth yr unawdydd alto Caroline Unger draw ato a'i droi i wynebu'r gynulleidfa er mwyn iddo allu eu gweld yn cymeradwyo'n wyllt. Yn y foment honno roedd Beethoven yn gwybod ei fod o wedi creu darn o gerddoriaeth oedd yn rhan o'i "rodd anferth i ddynoliaeth".



# Capel Ni

## yn Eglwys Iesu

### *Ebeneser, Treuddyn*

**Y PANDEMIG**
Yn ystod y misoedd anodd a aeth heibio oherwydd Covid-19 a'r ffaith ei fod yn dal gyda ni, rydym fel aelodau wedi colli'r oedfaon, y gwmnïaeth a'r cymdeithasu yn ystod y rhan fwyaf o'r flwyddyn hon. Rydym wedi colli bod gyda'n gilydd yn fawr iawn, nid yn unig yn yr oedfaon ar y Sul, ond hefyd yn ein Cymdeithas ganol wythnos. Ynghyd â hyn rydym wedi methu cynnal ein Harwerthiant blynyddol ym mis Mai a'n Te Prynhawn a gynhelir bob mis Medi yn Hafan Deg. Rhaid inni fodloni ar gofio'r prynhawniau pleserus a gawsom gyda ffrindiau dros y blynyddoedd yn y gweithgareddau hyn, ac rydym bob amser wedi bod yn ddiolchgar iawn am holl gefnogaeth y gymuned leol.

Yn anffodus, ni fydd hi'n bosib i ni gynnal ein Gwasanaeth Carolau y flwyddyn hon chwaith. Dyma'r amser pryd rydym yn dathlu gyda llawer o ffrindiau a'r gymuned leol ac yn dilyn y gwasanaeth cael mwynhau sgwrs a lluniaeth ysgafn gyda'n gilydd.

**DIOLCH AC EDRYCH I'R DYFODOL**
Er gwaethaf yr amgylchiadau, rydym yn dal i fod yn hynod o ddiolchgar i'r Parchedig Eirlys Gruffydd Evans a'r Parchedig Marc Morgan am eu gwasanaethau trwy e-bost bob Sul. Rhennir y rhain hefyd trwy law i'r rhai sydd heb yr adnoddau cyfrifiadurol.

Gobeithiwn fod pawb yn cadw'n saff yn ystod y cyfnod anodd hwn a'n gwir obaith yw y cawn gyfarfod gyda'n gilydd eto rywbryd yn y flwyddyn newydd. Yn y cyfamser, dymunwn Nadolig Dedwydd i bawb.

**GOHEBYDD .** GLENYS DAVIES

### *Ardal Bathafarn*

**CYFARCHION**
Er i gapeli'r Ardal hon fod ar gau byth ers mis Mawrth, parhawn i gysylltu â'n gilydd drwy dechnoleg, llythyrau, galwadau ffôn ac ymweliadau y tu allan pan ganiateir hynny. Er na fydd modd dod at ein gilydd i ddathlu'r Nadolig yn y ffordd arferol, edrychwn ymlaen at ddyddiau gwell.

Cofiwn yn ein gweddïau am bawb ym mhob man sydd wedi cael colledion enbyd yn y misoedd diwethaf. Ein cofion anwylaf hefyd at bawb yn Ardal Bathafarn, gartref ac mewn cartrefi gofal, gan edrych ymlaen at gael cwrdd unwaith eto.

**NEWID AELWYD**
Dymuniadau gorau i Cyril Jones, sydd wedi symud i Lys Awelon. Pob bendith a hapusrwydd iddo yn ei gartref newydd.

**DATHLU**
Hyfryd yw cael newyddion da yn y cyfnod llwm hwn. Llongyfarchiadau i Siân a Dylan Parry, Tŷ Ucha'r Llyn, Gwyddelwern, ar ddod yn daid a nain eto. Ganwyd Nansi Fflur i Huw a Dilwen, chwaer fach i Harry. Dymuniadau gorau am bob hapusrwydd hefyd i ddau frawd Tŷ Ucha'r Llyn, Steffan wedi dyweddïo â Zoe Duckworth a Tudur wedi dyweddïo â Chantelle Holland. Anfonwn ein cofion anwylaf hefyd at Ifor Parry, taid a hen daid, sy'n derbyn gofal yng Nghartref Plas Gwyn.

Dyma lun o fedydd Jac Tudur, hefyd yn ŵyr bach i Siân a Dylan, Tŷ Ucha'r Llyn. Cynhaliwyd y bedydd ar 12 Medi, yn yr ardd yn Nhy'n y Coed Uchaf, Penmachno, o dan ofal y Parchedig Gerwyn Roberts. Hoffai'r teulu ddiolch am yr holl garedigrwydd a ddangoswyd tuag atynt ac am yr anrhegion a dderbyniodd Jac a'i frawd Efan sydd wedi dathlu ei ben-blwydd yn ddwy oed.



Dymuniadau gorau yn ogystal i'r Parchedig Gwilym O Jones ar ddathlu ei ben-blwydd yn naw deg oed. Bu'n Arolygwr gweithgar ac annwyl iawn yn Ardal Bathafarn yn ystod wyth a naw degau'r ganrif ddiwethaf. Pob bendith iddo a chofion cynhesaf.

**AMBELL BWT ARALL**
Darllenais yn ddiweddar ychydig eiriau o gyngor gan Terry Waite, un a fu mewn caethiwed yn Lebanon am 1,763 o ddiwrnodau sef bron i bum mlynedd, ar ôl teithio yno fel llysgennad i geisio helpu i ryddhau gwystlon. Dywed wrthym am beidio â chwyno, gan nad yw'r cyfnod hwn o orfod aros gartref yn golygu bod yn gaeth ond yn hytrach ein bod yn ddiogel. Ei gyngor i ni oll yw cadw ein hurddas; creu trefn i'r diwrnod; bod yn ddiolchgar am bopeth sydd gennym, yn gysgod, cartref a meddiannau; darllen a bod yn greadigol.

Gwelais hefyd stori fach am bedair cannwyll yn goleuo gyda'i gilydd.

Y gannwyll gyntaf oedd Heddwch, ac meddai'r gannwyll hon: "Mae cymaint o anghydfod yn y byd. Does neb yn mynd i fy nghadw yn olau." Ac fe ddiffoddodd.

Yr ail gannwyll oedd Ffydd, ac meddai hithau: "Dydw i ddim yn anhepgorol rŵan." Daeth chwa o wynt a diffodd yr ail gannwyll.

Meddai'r drydedd gannwyll, sef Cariad, yn drist: "Dydi pobl ddim yn deall pam rwyf fi yn bwysig, dydyn nhw ddim hyd yn oed yn dangos cariad tuag at y rhai agosaf atynt." Diffoddodd hithau.

Yn sydyn, rhedodd plentyn i'r ystafell a gofyn mewn braw pam roedd y canhwyllau wedi diffodd. "Roeddech chi i fod i oleuo hyd y diwedd," meddai.

Ond meddai'r bedwaredd gannwyll:



"Peidiwch ag ofni, fi yw Gobaith a thra byddaf fi yma gallwn ail-oleuo'r canhwyllau eraill."

Â'i lygaid yn disgleirio, cymerodd y plentyn Gannwyll Gobaith ac ail-oleuo'r canhwyllau eraill.

"Y mwyaf o'r rhain yw cariad" – ond ni ddylai fflam gobaith byth ddiffodd o'n bywydau er mor anodd y gall bywyd fod.

**GOHEBYDD .** ELIZABETH JONES

## *Saron, Bethel, Caernarfon*

**CYD-DRYSORYDDION NEWYDD**
Gyda'r drysau ar agor led y pen ar fore braf o fis Medi cawsom ein Cyfarfod Blynyddol yn y capel gyda'r Parchedig Richard Gillion yn y gadair. Etholwyd Mrs Delyth Williams a Mrs Eleri Warrington yn gyd-drysoryddion yn dilyn ymddeoliad ein trysorydd ar ôl tri deg un o flynyddoedd yn y swydd. Ef sydd bellach yn ysgrifennydd yr eglwys. Diolchwyd i'r holl aelodau am eu cyfraniadau llawn a phrydlon yn ystod y flwyddyn hon eto.

**YSGOL NI AR Y BLAEN**
Yng ngwobrau BAFTA Cymru eleni aeth gwobr arbennig am y gyfres ffeithiol orau i raglen Ysgol Ni: Maesincla, cyfres deledu gan Gwmni Darlun yn rhoi hanes yr ysgol o ddydd i ddydd. Mae Cadi a Charles, dau sy'n dod efo'u chwaer bach a'u brawd mawr yn ffyddlon i Saron, wedi bod yn amlwg iawn yn y gwahanol rifynnau yn y gyfres ddifyr hon. Llongyfarchiadau mawr i'r ddau ac i'w hysgol hefyd wrth gwrs.

Cofion at bawb a chadwch yn saff.

**GOHEBYDD .** RJ




## *Tabernacl, Llanfyllin*

**CEWCH EISTEDD YMA**
Wedi hir ddisgwyl, fe gawsom gyfle i addoli yn y capeli unwaith eto. Yma yn Llanfyllin roeddem yn ymuno ag aelodau Pendref – gan ddefnyddio'r ddau gapel am yn ail. Er mwyn cadw pellter cymdeithasol, roedd pob sedd wedi ei nodi yn ofalus, gan ddefnyddio cyfeiriad o'r Beibl oedd yn sôn am 'eistedd'. Er enghraifft, "Gwnaeth yr Iesu i 5000 o bobl eistedd mewn rhesi. Eisteddwch chi yma." Un arall oedd "Meddai'r Iesu, 'Yr wyf wedi paratoi lle i chwi.' Eisteddwch fan hyn." Hefyd "Deuwch ataf fi bawb sy'n flinderog ac yn llwythog. Cewch eistedd yma." Syniad Mrs Mair Ellis oedd hyn a hi fu'n paratoi'r posteri oedd wrth ben y seddi gosod. Rydym fel aelodau yn ddiolchgar iawn iddi hi a'i gŵr Tom am eu gwaith cyson yn y Tabernacl.

**PRIODAS**
Llawenydd oedd gweld priodas yn y capel yn ystod y cyfnod clo. Er bod y gwesteion a'r pâr priod yn gorfod gwisgo mygydau y rhan fwyaf o'r amser y tu mewn i'r capel, yn naturiol roedd yn achlysur hapus dros ben. Y briodferch oedd Sioned Watkin, Abernaint, merch John a Bethan Watkin a'r priodfab oedd Stuart Lewis, Caenymynydd, Dolanog. Gweinyddwyd y briodas gan Mr Tom Ellis a chafwyd y wledd briodas yn y Cann Offis, Llangadfan. Fel aelodau o'r Tabernacl, dymunwn iddynt bob bendith ar eu priodas.

**LLONGYFARCH**
Llongyfarchiadau i Darren a Shan Mayor ar ddod yn daid a nain am y tro cyntaf. Ganwyd merch fach i'w mab Lloyd a'i wraig, yn Llanfair Caereinion. Pob dymuniad da hefyd i John a Pat Ellis, hen daid a nain y ferch fach. Newyddion da ynghanol y cyfnod anodd hwn. Boed bendith ar y teulu oll.

**GWELLHAD**
Gwellhad buan i Mr Keith Blacker wedi iddo gael anaf wrth syrthio yn ei goedwig. Cofion cynnes ato a chofion hefyd at ein haelodau sydd wedi bod yn gaeth i'w cartrefi ers misoedd bellach. Rydym yn cofio am eich ffyddlondeb i'r capel dros yr holl flynyddoedd ac mae'n braf cofio llawer o amseroedd hapus. Dymuniadau gorau am Nadolig llawen a blwyddyn newydd fendithiol i chi oll ac i holl ddarllenwyr y Gwyliedydd!

**GOHEBYDD .** ALWENA FRANCIS

# Diolch, Arfon

*gan Maryl Rees*

Ar ddiwrnod olaf y flwyddyn byddwn yn dod i ddiwedd cyfnod yn hanes Synod a Chylchdaith Cymru. Dyma pryd y bydd Arfon Williams yn cau pen y mwdwl ar ei gyfnod fel Gweinyddydd ac Ysgrifennydd Synod Cymru a Thrysorydd y Gylchdaith. Mae Arfon wedi rhoi blynyddoedd o wasanaeth i ni fel Synod a Chylchdaith ac mae ei gyfraniad wedi bod yn



amhrisiadwy. Roedd trefniadaeth yr Eglwys Fethodistaidd ar flaenau ei fysedd, manylion Synod a Chylchdaith Cymru i gyd yn ei ben a gellid bob amser ddibynnu ar ei arweiniad a'i gyngor parod. Cefais y pleser o gyd-deithio ag Arfon yn y car ac ar drên i nifer o gyfarfodydd a chynadleddau. Roedd y sgwrs bob amser yn ddifyr, y trafod ar adegau'n ddifrifol ond hefyd digon o hwyl a chwerthin. Wrth inni ddiolch i Arfon am ei gyfraniad, holais ef sut brofiad fu gweithio i Synod a Chylchdaith Cymru. Cytunodd yntau i roi ychydig o'r hanes:-

"Yn dilyn ymgynghori a llawer o waith caled gan Dr Philip Davies yn ystod 2008 a 2009, daeth trefn newydd i fod ar gyfer eglwysi Cymraeg yr Eglwys Fethodistaidd. Gofynnwyd i mi a fyddai gen i ddiddordeb yn swydd Trysorydd Cylchdaith Cymru. Mae'n rhaid fy mod mewn gwendid ar y pryd oherwydd derbyniais y gwahoddiad yn syth heb ystyried faint o waith fyddai ynghlwm â'r swydd.

"Doedd gen i ddim bwriad o gwbl i adael y banc ar ôl 39 mlynedd yn 56 mlwydd oed; roeddwn yn awyddus i gwblhau 40 mlynedd ac, o bosib, ymddeol yn 60 oed. Ond yna crybwyllwyd y posibilrwydd o ymgeisio hefyd am swydd ran-amser Gweinyddydd. Awgrymodd Gwen, fy niweddar wraig, y gallai hyn fod yn gyfle imi newid cyfeiriad, cael mwy o amser hamdden a hefyd cyflawni gwaith fyddai'n agos at fy nghalon. Mae'r gweddill yn hanes!


"Rhaid imi ddweud fy mod wedi teimlo'n freintiedig ac yn ffodus o gael bod mewn swydd, sef trysorydd cylchdaith, swyddog gweinyddol ac Ysgrifennydd y Synod, a ddaeth â chymaint o foddhad imi. Mae pobl yn bwysig i mi ac roedd rhan helaeth o'r swydd yn ymwneud â phobl drwy gyfarfodydd, galwadau ffôn ac e-byst. Sylweddolais yn fuan, er ein bod yn fychan mewn nifer, fod yr ymroddiad a'r ymdrech gan swyddogion ac aelodau ein capeli yn anhygoel. Pleser oedd cael dod i gysylltiad â chynifer o bobl a chynnig cymorth ac arweiniad pan fo'r angen.

**Ehangu gorwelion**

"Cefais gyfleoedd i ehangu fy ngorwelion drwy gyfarfod swyddogion y Cyfundeb yn Llundain a Manceinion a daeth un peth yn hollol amlwg yn gynnar iawn, sef faint o feddwl oedd ganddynt o Synod Cymru a'r gwaith Cymraeg, a'u bod yn ein hystyried yn rhan bwysig iawn o'r Eglwys Fethodistaidd.

"Fel Ysgrifennydd Talaith bûm yn mynychu'r Gynhadledd Fethodistaidd yn flynyddol. Dyna beth oedd agoriad llygaid, wrth imi sylweddoli mudiad mor fawr yr oeddem yn rhan ohono a chael cyfle i rwydweithio â chynrychiolwyr o lawer o wahanol gefndiroedd. Hefyd, bûm yn eistedd ar y Cyngor Methodistaidd


## cartŵn






**Croeso, Hefin**
Wrth ddiolch i Arfon am ei holl waith a dymuno'r gorau iddo yn y dyfodol, mae'n bleser cael croesawu trysorydd newydd y Gylchdaith, sef Mr Hefin Williams, Rhiwlas.

Brodor o Ddeiniolen yw Hefin ac fe'i magwyd yn aelod o Gapel Tabernacl, Deiniolen. Symudodd i Rhiwlas yn 1977 pan briododd ag Einir, a daeth yn aelod yng nghapel Pisgah. Mae'n drysorydd yr eglwys ers 2017 ac yn swyddog yr adeiladau. Roedd gwaith beunyddiol Hefin ym myd peirianneg ac am 15 mlynedd bu'n ddarlithydd yng Ngholeg Meirion Dwyfor. Mae bellach wedi ymddeol ond yn parhau i gynrychioli Ward Rhiwlas ar Gyngor Cymuned Llanddeiniolen, swydd mae wedi ei dal am dros 40 mlynedd. Bu hefyd yn aelod o Gyngor Sir Gwynedd am 12 mlynedd. Dymuniadau gorau, Hefin, a phob bendith yn y swydd.



(Methodist Council) am bedair blynedd; hwn yw'r corff sydd yn paratoi ar gyfer busnes y Gynhadledd ac yn rhedeg pethau rhwng cynadleddau. Roeddem yn cyfarfod deirgwaith y flwyddyn, am dri diwrnod fel arfer, ac ambell dro byddai'r drafodaeth yn frwd iawn gyda theimladau cryf ar bob ochr.

**Tristwch**
"Yn ogystal â bod am gyfnod yn Swyddog Diogelu – hynny hefyd yn agoriad llygad ac yn gallu bod yn frawychus – cynyddodd y pwysau gwaith yn sylweddol pan gefais gyfrifoldeb ychwanegol fel Ysgrifennydd Eiddo. Roedd hyn yn cynnwys cyfrifoldeb dros gapeli oedd yn cau. Dyma yn sicr un elfen o'r gwaith wnaeth beri tristwch i mi. Teimlais dristwch mawr yn bersonol pan gaewyd Ebeneser, Caernarfon y llynedd; cefais fy magu o fewn cymdeithas yr eglwys honno, a ddylanwadodd arna'i ac yn wir a'm siapiodd. Ymhen amser ysgafnhawyd y baich gwaith i mi pan benodwyd fy nghyfaill Alun Jones yn Ysgrifennydd Eiddo.

**Cefnogaeth a chwmnïaeth**
"Heb os nac oni bai, byddaf yn gweld eisiau'r gefnogaeth a'r gwmnïaeth arbennig a gefais yn y gwaith hwn. Wedi colli Gwen, fy mhriod, fe wnes ystyried ymddeol ond y cyngor a dderbyniais o sawl tu oedd "paid". Yn dilyn hynny yn y blynyddoedd diwethaf cefais ambell ergyd bersonol a phroblemau iechyd ond profais gefnogaeth heb ei hail.

**Mynd yn rhy bell?**
"Cofiwch chi, mae'n bosib fod y gefnogaeth a'r gofal yma wedi mynd yn rhy bell ambell dro! Rhai blynyddoedd yn ôl, wedi i Gwen a minnau drefnu i fynd ar wyliau hefo cwmni Arvonia i Awstria, pwy ddaeth ar y bws yn ardal Treffynnon, ac eistedd gyferbyn â ni, ond Maryl ac Alwyn Rees; ar y pryd, Alwyn oedd Trysorydd y Synod. Ffolineb wrth gwrs yw dweud nad yw mellten yn taro'r un lle ddwywaith. Ychydig flynyddoedd yn ddiweddarach a ninnau'n cychwyn ar wyliau i dde ddwyrain Ffrainc, pwy oedd ar yr un daith ond Carol a Gwyn Jones o Rhiwlas gyda Gwyn, ar y pryd, yn Drysorydd y Synod. Hyd yn hyn, rydw i wedi cael llonydd gan Medwyn, ein Trysorydd presennol, a'i briod Mary!

**Down drwyddi**
"I gloi, alla i ddim ond dweud cymaint o fraint ydi hi wedi bod i weithio i'r Synod a'r Gylchdaith. Mae yna gyfnod pwysig iawn ar y gorwel i ni fel enwad Cymraeg ond rydw i'n ddiffuant wrth feddwl, drwy gymorth Duw, y down drwyddi. Diolch ichwi i gyd."

# Cyngor yr Eglwys Fethodistaidd

***gan Bet Holmes***

Fel aelod newydd o'r corff hwn, yn cynrychioli Synod Cymru am y tro cyntaf mewn cyfarfod Zoom ym mis Hydref eleni, teimlais fod y Cyngor wedi llwyddo i drafod y materion dan sylw yn dda. Roeddwn yn ymuno â rhyw 30 o aelodau o wahanol Daleithiau ynghyd ag aelodau ex officio. Trafodwyd pynciau amrywiol iawn – o waith y Tîm Cyfundebol a chyllideb y Cyfundeb i ddyfodol Cronfa Ymddiriedolaeth Ysgol Sul hen eglwys Middleton Cheney (£64.82) – ac roedd ambell bwnc o ddiddordeb arbennig i ni yma yng Nghymru.

Gofynnwyd i fi gan Gylchdaith Ceredigion siarad am ddyfodol buddsoddiad yr Eglwys mewn tanwydd ffosil. Mae'r Eglwys Anglicanaidd ym Mhrydain eisoes wedi rhoi'r gorau i fuddsoddiadau o'r fath ac mae'r Fatican hefyd wedi cynghori y dylid dadfuddsoddi. Yn awr mae'r Eglwys Fethodistaidd yn eu dilyn, er nad oedd y bleidlais yn unfrydol: 60% yn unig oedd dros ddadfuddsoddi, cyn Cynhadledd 2021, o bob cwmni olew a nwy sydd ddim yn dilyn nod Cytundeb Paris sef cadw'r cynnydd yn nhymheredd y byd o dan 2°. (MC/20/89/1)

O achos Covid-19, rhaid oedd ceisio arbed dros filiwn o bunnau ar gyllideb Gwasanaethau Canolog y Cyfundeb 2020/21. Gallai peidio â chyfieithu Fersiwn 3 Addoli, Arwain a Phregethu i'r Gymraeg arbed swm eithaf sylweddol. Wrth gwrs, roedd hi'n amhosib i fi gadw'n dawel! Ymateb Doug Swanney, Ysgrifennydd y Cyfundeb, oedd ei bod yn bosib i ni ddal ati gyda fersiwn 1 am nawr, gyda'r bwriad o gyfieithu Fersiwn 4, pan ddaw, os profir yr angen. Derbyniwyd MC/20/94/1-3 yn ddiwrthwynebiad.

Ond, wrth gwrs, y pwnc mwyaf llosg i ni'r Cymry oedd Dyfodol yr Eglwys Fethodistaidd yng Nghymru (MC/20/104). Crybwyllwyd pryderon ynglŷn â chost dwyieithrwydd. Atgoffais i'r Cyngor taw yr eitem nesaf ar yr Agenda oedd adroddiad Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant, ac y gellir ystyried iaith yn fater CAC. Esboniais y Ddeddf Iaith (wrth gwrs, dyw pobl Lloegr ddim yn gwybod dim am ein hawliau dan y gyfraith yma), a dywedais i pe bai'r Eglwys Fethodistaidd yn gorff statudol, byddai *rhaid* darparu defnydd yn yr iaith Gymraeg os oedd galw. Gorffennais gyda'r ddihareb "Beth yw cost lle mae cariad", gyda chyfieithiad wrth gwrs. Roedd ymateb Doug Swanney (sydd yn Albanwr) yn gadarnhaol tu hwnt, gan ein sicrhau nad oes dim cwestiwn o roi'r gorau i waith yn yr iaith Gymraeg. Yn y diwedd, cytunwyd yn ddiwrthwynebiad: "the Council recognises that the Synod Cymru cannot continue in its current form and asks the two Synods to debate the matter and to report to the Council of October 2021 on possible new arrangements to be implemented 2022-24." Cynhelir cyfarfod nesaf y Cyngor yn Ionawr 2021, eto ar Zoom.

# Capel Ni
## yn Eglwys Iesu

### *Pendref, Dinbych*

**AILAGOR**
Ar ôl chwe mis o dan y cyfnod clo cawsom y fraint o gynnal y gwasanaeth cyntaf, dydd Sul y 13eg o Fedi. Bu ymgynghoriad â'r aelodau cyn gwneud y penderfyniad. Paratowyd asesiad risg a dilynwyd y canllawiau i gydymffurfio â'r rheolau Covid-19. Cafwyd oedfa fendithiol dan arweiniad ein gweinidog y Parchedig Ddr Jennie Hurd.

Ar y pedwar Sul canlynol, am nad oedd pregethwyr ar gael, cynhaliwyd Cyfarfodydd Gweddi o dan arweiniad rhai o aelodau'r capel. Hoffem ddiolch i Heulwen Ellis, Bethan Roberts, Hywel Evans, Gwyn Williams, Elfed Evans a Medwyn Jones am gymryd rhan yn y gwasanaethau. Diolch hefyd i Vera Savage am chwarae mor effeithiol donau'r emynau ar y Clavinova tra bu'r gynulleidfa yn myfyrio dros eiriau'r emynau.

Yn anffodus oherwydd yr ail gyfnod clo ni chynhaliwyd oedfaon am y tri Sul canlynol ond gobeithiwn fod yn ôl yn y capel ar y 15fed o Dachwedd.

**DYMUNIADAU GORAU**
Anfonwn ein dymuniadau gorau am wellhad buan i'r Parchedig Cledwyn Parry a hefyd i'r aelodau hynny sydd ar hyn o bryd, am wahanol resymau, yn methu â mynychu'r oedfaon.

**CYFARFOD BLYNYDDOL**
Prynhawn dydd Mawrth Hydref 6ed cawsom gyfle i gynnal cyfarfod blynyddol yr Eglwys yn y capel, gan gydymffurfio â rheolau Covid-19, dan arweiniad ein gweinidog y Parchedig Jennie Hurd. Daeth nifer dda o'r aelodau i'r cyfarfod. Trafodwyd yr adroddiadau blynyddol, adeiladau, diogelwch, ariannu, penodi swyddogion, yn ogystal â dyfodol Synod a Chylchdaith Cymru, thema Synod Cymru ar gyfer 2020-21 a threfn y gwasanaethau ar gyfer 2021. Diolchwyd i'r holl aelodau am eu cyfraniadau ariannol hael. Diolchwyd i'r holl swyddogion am eu gwaith ac fe'u hail-etholwyd 'en bloc' am flwyddyn arall.

**GOHEBYDD .** MARY JONES

### *Salem, Rhyd y Foel*



**AILAGOR Y CAPEL**
Roedd yn braf iawn cael ailagor y capel am nifer o wythnosau cyn y Clo Byr diweddar, gan gadw wrth gwrs at y canllawiau diogelwch – system un ffordd, defnyddio hylif dwylo a gorchudd wyneb, cadw pellter 2 fetr a chofnodi enwau y rhai oedd yn bresennol ar gyfer tracio ac olrhain. Er na chaniateir canu na chyd-lefaru mae'r pregethwyr i gyd wedi addasu ffurf y gwasanaethau drwy ddefnyddio cryno ddisgiau a hefyd uwchdaflunydd. Dyma yw'r normal newydd ac mae pawb wedi dygymod yn dda iawn. Diolch i Ieuan am y trefniadau trylwyr er mwyn ein cadw'n ddiogel yn ystod y cyfnod anodd yma.

**DIOLCHGARWCH**
Ddydd Sul Hydref 18fed cynhaliwyd gwasanaeth o Ddiolchgarwch o dan ofal medrus Catherine Blythin. Roedd bwrdd y Cymun yn edrych yn hyfryd wedi i Esther Roberts ei addurno â chynnyrch yr Hydref. Braf iawn oedd cael cwmni chwech o blant sef Cadi a Gwil, Matthew a Mali a Mari a Cadi er yn anffodus nid oedd modd iddynt gymryd rhan fel y buasent yn arfer gwneud, oherwydd y cyfyngiadau.

**PROFEDIGAETH**
Estynnwn ein cydymdeimlad â Mrs Iola Roberts, Plas Onn, a'r teulu yn eu profedigaeth o golli brawd yng nghyfraith sef Mr Dilwyn Tudor Davies.

**GOHEBYDD .** SIÂN PRICE

### *Horeb, Croesoswallt*

**CYFNOD Y PANDEMIG**
Nid ydym wedi cynnal oedfaon ers mis Mawrth, ac ar hyn o bryd mae'n ansicr pa bryd y gallwn gyfarfod eto. Diolchwn am oedfaon ar y radio a'r teledu a thrwy gyfrwng y We i ddiwallu ein hanghenion ysbrydol. Mae ein gweinidog, y Parchedig Gwilym O Jones, wedi bod yn cysylltu trwy alwadau ffôn, a diolchwn iddo am hynny.

**CYDYMDEIMLO**
Collwyd o'n plith un o'n haelodau ffyddlonaf sef Mrs Jennifer Evans ar ôl salwch byr ond creulon iawn. Roedd Jennifer yn barod bob amser i gymryd rhan yn y gwasanaethau, a bydd colled fawr ar ei hôl. Bu ei hangladd yn amlosgfa Pentrebychan o dan arweiniad y Parchedig Gwilym O Jones. Cydymdeimlwn yn gywir iawn â'i mab Geraint, a Bethan ei merch yng nghyfraith a'r teulu oll.

**PEN-BLWYDD ARBENNIG**
Ganol mis Medi dathlodd y Parchedig Gwilym O Jones ei ben-blwydd yn 90 oed. Trefnwyd parti iddo yng nghartref perthnasau. Llongyfarchwn a llawenhawn ag ef ar gyrraedd y garreg filltir hon yn ei fywyd. Diolchwn iddo am ei ofal drosom fel aelodau.
**GOHEBYDD .** EURWYN JONES

## *Eglwys Unedig Colwyn*

**DAL I GEFNOGI'R DDAU HOSBIS**
Wrth i ni nesáu at ddiwedd y flwyddyn, edrychwn yn ôl ar gyfnod anarferol iawn yn ein hanes fel eglwys. Serch hynny i gyd dymunwn Nadolig bendithiol a heddychlon i bawb. Yn anffodus iawn oherwydd yr amgylchiadau ni fydd yn bosib cynnal y Cyngerdd Carolau elusennol eleni. Mae Ken Owen wedi gweithio yn galed iawn i sicrhau llwyddiant y cyngherddau hyn dros y blynyddoedd. Rydym yn bwriadu anfon £300 i Hosbis Dewi Sant a £300 i Dŷ Gobaith fel yr ydym wedi gwneud bob blwyddyn.

**DYMUNIADAU GORAU**
Cofion cynnes iawn at Eileen a phawb arall sydd wedi dioddef anawsterau iechyd yn ddiweddar.
**GOHEBYDD .** RHIANNON JONES




## *Shiloh, Tregarth*

**AILAGOR Y CAPEL**
Yn ffodus iawn, a chan ddilyn y rhagofalon, bu'n bosibl ailagor drysau Capel Shiloh am bum Sul yn olynol cyn cau am gyfnod eto oherwydd y "clo tân" cenedlaethol. Diolch o galon i'r Parchedig Eric Jones, Ellie Jones, y Parchedig Richard Gillion a Ffion Rowlinson am arwain gwasanaethau byr ac i amryw o'r aelodau am baratoi Gwasanaeth Diolchgarwch ar Hydref 18.

Yn dilyn Suliau'r ail gyfnod clo yn Hydref a Thachwedd, da iawn oedd cael agor unwaith eto gan groesawu'r Parchedig Jennie Hurd, Cadeirydd y Dalaith, ar 15 Tachwedd. Fe rown arwydd ar yr hysbysfwrdd o flaen y capel i roi gwybod am y gwasanaethau a cheisiwn gysylltu hefo chi i gyd yn ogystal.

**'AGOR Y CLO'**
Nos Sadwrn, Hydref 24, roedd rhaglen newydd ar S4C, sef 'Agor y Clo'. Rhaglen ddifyr dros ben yn ymwneud â hanes mewn gwahanol rannau o Gymru gyda Manon Elis yn cyflwyno. Braf iawn oedd gweld Eirwen a Wynn, Tyddyn Dicwm, yn sôn am y pentan o lechen gerfiedig hynafol sydd yn eu cartref. Yn wreiddiol roedd yn yr hen gartref teuluol ym Mryn Twrw, Tregarth ond pan symudodd y teulu i Dyddyn Dicwm daethant â'r pentan llechen hefo nhw. Mae'n arbennig iawn gan fod arno gerfiadau o'r planedau a hynny yn gywrain ac yn fanwl iawn.

**CYDYMDEIMLO**
Bu farw un o'n haelodau ffyddlonaf yn frawychus o sydyn, sef Helen Matilda Jones, yn ei chartref yn Ffordd Ffrydlas, Bethesda, ar Hydref 13. Roedd Helen yn un o hen deulu Cerrig Llwydion oedd â chysylltiad teuluol agos ers blynyddoedd lawer gyda chapel Shiloh. Roedd yn briod gyda'r diweddar Elfed ac yn fam i Bethan. Anfonwn ein cydymdeimlad at Bethan a'r teulu a ffrindiau. Bu'r angladd yn Amlosgfa Bangor ar Hydref 23.

**I'R YSGOL A'R COLEG**
Pob dymuniad da i bob un o ieuenctid y capel sydd wedi symud i ysgol newydd neu goleg yn ystod y tymor yma. Mae Huw Morris Jones bellach ar ei ail flwyddyn ym Mhrifysgol Lerpwl yn astudio Pensaernïaeth. Wedi cychwyn ar ei flwyddyn gyntaf ym Mhrifysgol Salford, Manceinion, y mae Ifan Rhys Cooke, gan ddilyn cwrs Technoleg Cerdd. Cofion atoch eich dau a byddwch yn ofalus yn ystod y cyfnod cythryblus yma.
**GOHEBYDD .** GWENDA DAVIES

# GAIR BACH

*gan y Parchedig John Pritchard, Llanberis*



## DYRO I MI ETO

Rhan o adnod yw pennawd yr erthygl hon. Bu'r pedwar gair yn ddyhead gennyf dros y misoedd a'r blynyddoedd diwethaf: 'Dyro i mi eto'. Ond dyhead nad oes modd hyd yn oed i'r Arglwydd Dduw ei fodloni fu ac ydyw hwnnw, gan ei bod yn gwbl amhosibl i mi, mwy na neb arall, gael ail fyw fy mywyd a chael yn ôl yr hyn a gollwyd. Duw a ŵyr na fyddai dim yn well gennyf nag ail fyw'r blynyddoedd a phrofi drachefn y cyfan a dderbyniwyd ac a rannwyd; ond un wedd ar alar yw'r sylweddoliad nad yw hynny'n bosibl.

Ar drothwy tymor yr Adfent, mae'r geiriau'n mynnu eu lle o'r newydd, a minnau'n gobeithio cael gweld y plant a'r wyrion cyn y Nadolig. Pwy fyddai wedi dychmygu, rai misoedd yn ôl, y byddai Lerpwl a Chaerdydd mor bell ag ydynt erbyn hyn? 'Dyro i mi eto' ryddid di-rwystr i groesi Pont Runcorn a dilyn yr A470. 'Dyro i mi eto' beth mor syml â'r gallu i gyfarfod â ffrindiau am baned a sgwrs. Does ond gobeithio y bydd y rhain a llu o bethau tebyg yn bosibl cyn bo hir.

Ond am beth yr hiraethai Dafydd? 'Dyro i mi eto' meddai, 'orfoledd dy iachawdwriaeth' (Salm 51:12). Mewn edifeirwch, mae'n dyheu am gael unwaith yn rhagor y llawenydd a brofodd gynt ond a gollodd oherwydd y pechod y mae'n ei gyffesu yn y Salm. Trwy gyfnod yr Adfent a thros y Nadolig, 'Dyro i mi eto' fydd fy ngweddi innau. Oherwydd oerni fy nghalon; am fy mod mor dueddol o golli golwg ar fawredd fy Ngwaredwr; ac er gwaethaf f'annheilyngdod, boed i Dduw ei hun fy ngwefreiddio o'r newydd trwy hoelio fy ngolwg ar Iesu, a'm cynhesu a'm goleuo a'm llenwi â rhyfeddod. 'Dyro i mi eto orfoledd dy iachawdwriaeth.'

# O'R LLAN

***gan y Canon Idris Thomas***

**"A'R ANGYLION SANCTAIDD GYDA MI"**

Geiriau olaf yr wythfed bennod o Efengyl Marc yw'r pennawd uchod lle cawn yr Iesu yn rhagfynegi ei farwolaeth a'i atgyfodiad. Yn wir mae cyfeiriadau at yr angylion yn britho llyfrau'r Beibl ac mae iddynt ran amlwg yn ein cred, ein crefydd a'n haddoliad. Dywed Salm 91 – "oherwydd rhydd orchymyn i'w angylion i'th gadw yn dy holl ffyrdd" a dywed awdur yr Epistol at yr Hebreaid am ddyletswyddau pob angel – "Ysbrydion gwasanaethgar ydynt hwy oll, wedi eu danfon i wasanaethu". Y mae iddynt le amlwg ar Ŵyl y Geni. I ragfynegi geni'r Iesu anfonodd Duw yr Angel Gabriel at Mair. Fel hyn y dywedodd Thomas Charles o'r Bala am Gabriel yn un o'i ysgrifau –

"Mae ei holl ymddygiad yn cyflawni ei genadwri yn ardderchog – yn dirion, yn fwynaidd, yn hawddgar – fel cennad addas oddi wrth Lys Goruchaf, a chenadwri mor bwysig a gogoneddus".

Wrth gyhoeddi neges ei eni i'r bugeiliaid ar feysydd Bethlehem "ymddangosodd gyda'r angel dyrfa o'r llu nefol yn moli Duw". Côr o angylion yn canu'r garol Nadolig gyntaf erioed, i fynegi anrhydedd i'r baban oedd newydd ei eni ym mhreseb Dinas Dafydd. Daw pennill syml ond gafaelgar o garol Roger Jones o Lŷn i'r meddwl:

"Disgynnodd angylion
I ddweud iddo ddod,
Gan lenwi'r awelon
Â cherddi ei glod;
Er maint ein trueni
Mae'r gân ar ein clyw,
Tangnefedd i ddynion,
Gogoniant i Dduw".

Ac fe all yr angylion ganu eu cân, yn hen ac eto'n fythol newydd, eleni eto. Yn ddiweddarach wrth gwrs, angel roes rybudd i Mair a Joseff i ffoi i'r Aifft gyda'r baban Iesu oherwydd bygythiad gwirioneddol Herod greulon. Yr angel felly yw'r "negesydd dwyfol".

**GŴYL YR HOLL ANGYLION**

Cyd-ddigwyddiad diddorol yw mai ar fore Gŵyl Mihangel a'r Holl Angylion (29 Medi) rwyf yn ysgrifennu yr erthygl hon am angylion! Ar wahân i hanes angylion o amgylch Gŵyl y Geni mae ganddynt felly Ŵyl hynafol a phwysig eu hunain yn y Calendr Cristnogol. Mae'r

**PORTREADU ANGYLION**

A fu rhai ohonoch chwi yn chwarae rhan angel yn Nrama'r Geni mewn Capel neu Eglwys? Yn ei glasur o gerdd, "Drama'r Nadolig", mae Gwyn Thomas yn sôn am "oedolion eraill yn hyfforddi angylion" ac am y "dadlau croch weithiau ymysg angylion". Bûm yn gofalu lawer tro fel Deon Gwlad Arfon am blwyf Llanllyfni (Plwyf fy mam a nhaid) a chyn y Nadolig byddwn bob amser yn treulio diwrnod cyfan yn mynd â'r Cymun i aelodau a oedd yn wael ac yn gaeth i'r tŷ. Gyda mi byddai y ddiweddar Julia Williams, Warden arbennig iawn a hynod weithgar o fewn y plwyf. Ni wnaf anghofio y croeso mawr ar bob aelwyd. Yn un o'r aelwydydd sylwais ar ddau lun mawreddog o angylion ar wal y parlwr ffrynt. Yn y naill roedd yr angel yn helpu plentyn i ddal iâr fach yr haf ac roedd holl awyrgylch y darlun yn hafaidd a hapus. Yn y llall roedd y plentyn yn dilyn llwybr peryglus a gellid gweld anifeiliaid rheibus yn y cefndir ond gwyliai'r angel mawr drosto a gwyddai na ddoi i unrhyw ddrwg.

weddi ar gyfer gŵyl Fihangel yr wyf newydd ei darllen yn gofyn i Dduw drefnu i'w angylion ein "cynorthwyo a'n hamddiffyn ni ar y ddaear". Daw i'm cof yr Ysgol Sul yn Eglwys fach Dinorwig a chwestiwn gafwyd yn arholiad ysgrifenedig Gŵyl Plant Dosbarth Eryri un flwyddyn oedd – "Y mae holl enwau priod yr angylion a enwir yn yr Ysgrythurau yn diweddu â'r sillaf "EL". A wnewch eu henwi?" Daw pump i'r cof –"RaphaEL"(Llyfr Tobit yn yr Apocryffa) –"UriEL"(Ail lyfr Esdras eto yn yr Apocryffa) –"GabriEL"(Llyfr Daniel ac Efengyl Luc) a "MihangEL" (Llyfr Daniel ac Ail Lythyr Paul at y Thesaloniaid. Os cofiaf o ddyddiau darlithoedd Coleg Llambed gynt, hen ffurf Hebraeg ar enw Duw yw "EL".

# "You are number 6."

***gan y Parchedig Euron Hughes***

Does yna neb yn hoffi'r syniad o gael ei hadnabod fel ystadegyn yn unig. Wrth geisio ffoi o'r pentref a grëwyd gan Clough Williams-Ellis yr oedd cymeriad di-enw Patrick McGoohan Number 6 yn gweiddi tuag at y nefoedd wrth redeg ar hyd traeth Portmeirion, "I am not a number! I am a free man!"

Ceisio dianc o'r carchar anarferol yma yr oedd McGoohan. Rydym ninnau, fel yr wyf yn ysgrifennu'r geiriau yma, mewn ail gyfnod clo ein hunain, ac nid yn annhebyg i gymeriad McGoohan, rydym yn dyheu am ein rhyddid.

Yn y Beibl mae nifer o gyfeiriadau at hanesion am garcharorion. Yn 1 Brenhinoedd 20 rydym yn cael hanes Ahab a'r proffwyd, ac Ahab yn ddiarwybod yn condemnio'r proffwyd am rywbeth mae o wedi ei wneud ei hun, sef rhyddhau carcharor.

Yng nghanol ein byd 24 awr di-stop a'n prysurdeb di-dor, hawdd iawn i ni golli golwg ar ein cyfrifoldebau fel dinasyddion a chymdogion cariadus. Yn yr efengyl yn ôl Marc (4:19) fe welwn hyn:

"mae gofalon y byd hwn a hudoliaeth golud a chwantau am bopeth o'r fath yn dod i mewn ac yn tagu'r gair, ac y mae'n mynd yn ddiffrwyth".

Tybed oeddem ni, cyn y cyfnod clo yma, yn garcharorion i hudoliaeth materoldeb? Yn awchu am hyn neu'r llall neu am ryw wrthrych newydd? Efallai ein bod ni yn cael ein cau i mewn i gelloedd confensiynau a disgwyliadau cyfalafiaeth, ac yn disgwyl perchnogi'r peth diweddaraf sydd yn addo'n rhyddhau ni o'n trachwant anniwall?

A rŵan? Ydym ni yn dyheu am yr un pethau? Yn sicr rydym i gyd yn ddieithriad yn dyheu am ddatrysiad i'r sefyllfa bresennol ac am frechlyn effeithiol i ddiogelu ein hanwyliaid a'r rhai bregus yn ein plith ni.

Am ddau o'r gloch bob prynhawn mae Gwasanaeth Iechyd Cyhoeddus Cymru yn rhyddhau ffigyrau dyddiol am faint o achosion newydd sydd wedi codi yng Nghymru a hefyd yn drist iawn, faint sydd wedi colli eu bywydau. Ac mae'r niferoedd yn frawychus.



**ANGYLION FO YN GWYLIO**

Cawsai'r angylion barch a sylw dyledus gan ein cyndeidiau. Gwelir poblogrwydd yr Archangel Mihangel er enghraifft yn nifer lluosog y plwyfi a'r eglwysi a ddwg ei enw ymhob cwr o'n gwlad. Ond a ydym tybed yn ein cyfnod ni wedi mynd yn swil o gyfeirio at angylion yn ein crefydd ac ai mewn rhyw fyd o hud a lledrith y tueddwn i feddwl amdanynt? Rhof glod i'r canwr poblogaidd Robbie Williams am ei gân "Angels" sydd mor boblogaidd mewn cynebryngau gyda'i linell olaf "I'm loving angels instead". Clod i Karen Owen hefyd (pob dymuniad da iddi yn ei gwaith Cristnogol ym Mhenygroes, Arfon) am yr englyn sy'n addas i'r Nadolig sef "Llais Angel" a dwi'n hoff iawn o'r llinell olaf -

"Heno i ni, daeth o'r newydd – rhyw olau
Ar yr ŵyl ddigrefydd;
Seraff a ŵyr nosau'r ffydd,
Duw ei hun ar adenydd".

Yn Eglwys fach Dinorwig fy mhlentyndod ac o hyd yn Eglwys Crist Llandinorwig yma yn Neiniolen, gorffennir pob gwasanaeth hwyrol trwy ganu'r pennill canlynol. Pa well ffordd i ddod â phob nos Sul i ben ac fel y gwelwch caiff yr angylion le amlwg ynddi. Defnyddiwch y pennill fel Gweddi cyn clwydo –

"O cadw ni drwy'r nos,
Rhag ofnau, Arglwydd mawr;
Angylion fo yn gwylio'n hun,
Hyd doriad bore wawr".

Nadolig Llawen i holl ddarllenwyr y Gwyliedydd ac i bawb sy'n ei baratoi ar ein cyfer.

Rhaid i ni gofio tu ôl i bob un o'r rhifau yma, mae yna berson cyflawn gyda theulu, gyda breuddwydion a gobeithion mor unigol â phob un ohonom. I atseinio cri McGoohan – nid rhifau mohonynt ond pobol.

Gwae ni rhag dyheu am ryddid o'r clo er ein buddiannau ein hunain; dyna oedd gwendid Ahab, rhyddhau ei garcharor er lles ei fuddiannau ei hun wnaeth o. Y mae Crist yn ein galw ni i garu eraill ac i ofalu am y gweiniaid. Pan ysgrifennodd Paul ei lythyr at yr Effesiaid yr oedd wedi bod yn garcharor am bum mlynedd, ac fe ddywedodd:

"yr wyf fi, Paul carcharor Crist Iesu er eich mwyn chwi'r cenhedloedd, yn offrymu fy ngweddi".

Gadewch i ni felly ymrwymo i'r rheoliadau er mwyn diogelu ein brodyr a'n chwiorydd ac er mwyn dangos cariad i'n cymdogion pwy bynnag y bônt.

# Yn fythol newydd

Eleni yn sgil y pandemig a'r cyfyngiadau sydd arnom, bydd y ffordd rydym yn dathlu'r Nadolig yn siŵr o fod yn wahanol. Un traddodiad sydd yn agos at galon llawer yw gweld plant yn cyflwyno Drama'r Geni. Aeth plant Capel Penrallt, Bangor, ati i wneud pethau mewn ffordd wahanol y tro hwn, gan ffilmio'r stori allan yn y wlad. Mae croeso i bawb weld yr hen, hen stori yn dod yn fyw unwaith eto, mewn gwasanaeth ar-lein ar wefan www.penrallt.org o 14 Rhagfyr ymlaen.



SUT MAE GWEITHREDU DROS BLANT YN GWEITHIO

Hoffem ddiolch i'r canlynol am eu rhoddion, sydd wedi dod i law ers rhifyn diwethaf y *Gwyliedydd*:

- Elfed Hughes, Wrecsam £76.20
- Rhodd er cof am Kathleen M Owen £10.00
- Dienw £50.00

Anfonwyd cyfanswm o £136.20 yn enw Synod Cymru. Diolchwn am bob cyfraniad.

**Nadolig 2020**
Nid oes modd cynnal y casgliad anrhegion arferol oherwydd y gwahanol gyfyngiadau, ond gobeithiwn allu ailafael yn y casgliad y flwyddyn nesaf. Mae hi'n dal yn bosibl cefnogi Gweithredu dros Blant y Nadolig hwn drwy:

· Roddion ariannol arferol
· Secret Santa https://www.actionforchildren.org.uk/blog/help-us-make-differencechristmas-become-secret-santa-vulnerable-child/
· Starry Nights - cyngerdd carolau rhithiol – nos Lun 8 Rhagfyr 2020, 6.30-7.30yh http://www.starry-night.co.uk

**Gwasanaeth Nadolig 2020**:
Mae'r gwasanaeth i'w gael ar y we – https://media.actionforchildren.org.uk/documents/Christmas_Mailing_Bilingual_Worship_Outline.pdf

Gyda diolch a phob bendith,

Parchg. Marc a Mrs Margaret Morgan

Llety'r Bugail, 1 Cwrt Eden,
Gwersyllt, Wrecsam,
LL11 4FF01978 756717
cwrteden@gmail.com

# Yn eisiau

Trysorydd Dros Dro ar gyfer Pwyllgor Gwaith Cynhadledd Lerpwl 2022 y Gymdeithas Eciwmenaidd Ryngwladol (International Ecumenical Fellowship). Bydd pob cefnogaeth i'w chael gan y cyn-drysorydd. Telir costau ac mae'n bosibl y gellir cynnig honorariwm i'r person cywir. Cysyllter â bet_holmes@yahoo.com am ragor o fanylion.



# Wrth fynd heibio

### *gan William H. Owen*

Dweud y perffaith amlwg yw cyhoeddi na fydd y Nadolig ddim byd tebyg eleni. Os na fydd rhyw weddnewidiad mawr wedi bod gallwn fod yn sicr y bydd y pla yn dal i effeithio arnom ni hyd ddiwedd y flwyddyn ac ymhell i'r flwyddyn newydd.

Bu digon o dwrw yn erbyn Mark Drakeford, ein Prif Weinidog ni ein hunain, am gloi Cymru am bythefnos rhwng Hydref a Thachwedd. Gyda llygaid rhai ar y Nadolig a beth oedd am ddigwydd i'r dathlu eleni cawsom frawddeg heriol a chofiadwy ganddo: mae arbed bywydau yn bwysicach nag arbed y Nadolig.

Yn yr hinsawdd bresennol a chan wybod sut y mae pobl yn byw trwy'r flwyddyn yn edrych ymlaen am eu Nadolig materol roedd angen dyn go ddewr i yngan y fath frawddeg – yn arbennig wrth wybod fod cynifer yn meddwl na fydd y feirws byth yn eu taro hwy. Mae ysbryd Donald Trump yn llenwi calon llawer un yn y Gymru hon gan feddwl eu bod yn rhy fawr a rhy gryf i'r aflwydd eu cyffwrdd. Ac ni fydd dim yn y byd yn sbwylio eu Nadolig hwy.

Dewch i ni holi pam fod yr Ŵyl mor bwysig yng ngolwg pobl fel hyn? Yn bendifaddau nid oherwydd eu sêl dros achos Iesu Grist na chofio ei enw a chanu ei glodydd. Mae'r Nadolig – beth bynnag yw ei ystyr iddynt – yn esgus i ddathlu drwy wario'n wyllt, gloddesta ac yfed; mewn ychydig eiriau, mynd dros ben llestri'n gyfan gwbl.

Wrth gwrs, mae'r rhan fwyaf ohonom yn euog o'i gorwneud hi yr adeg yma o'r flwyddyn. Rydym wedi cael ein hudo gan y pwyso parhaus fod yn rhaid i ni gael y peth hyn a'r peth arall er mwyn dathlu'n iawn. Mae'r hysbysebu cyson ers wythnosau – er bod llai o wario ar hynny eleni – yn dweud wrthym nad yw'r Nadolig yn Nadolig heb yr anrheg hon a'r ddiod arall. A meidrol ydym wedi'r cyfan yn sŵn y jingles hysbysebol.

Eleni mae'n anodd dychmygu sut y bydd y dathlu. A fydd awydd i baratoi fel y blynyddoedd a fu a pheth rhwystrau yn dal mewn grym? A fydd y plant yn medru perfformio eu drama Nadolig a'r rhieni yn ymestyn dros ben y rhes o'u blaenau i dynnu'r fideo o'r foment gofiadwy? Efallai y bydd perfformiad, a'r bugeiliaid a'r doethion yn cyrraedd, ond mai yn rhithiol y bydd y cyfan i bob aelod o'r teulu yn eu cartrefi eu hunain.

Gwn fy mod yn swnio fel un sydd am ladd hwyl yr Ŵyl ond mae rhyw lais bychan yn dweud wrthyf mai da o beth fydd inni arafu a myfyrio am ychydig ar ddiwedd blwyddyn fel hyn. Cymryd hoe a chanolbwyntio ar wir ystyr y dathlu a chofio am unwaith nad er mwyn yr economi y gwnaed y Nadolig.

# Llyfr i'r Hosan

Llyfr newydd all fod o ddiddordeb i ddarllenwyr y *Gwyliedydd* yw 'Pobol y Topie/ Bont-goch Lives' gan Richard E Huws, lle ceir hanes dros gant o ddynion a merched a wnaeth gyfraniad i fywyd cyfoethog gogledd Ceredigion. Yn eu plith y mae saith o weinidogion Wesleaidd sef William Davies, Gwilym Lleyn, Joseph Jenkins, J. Haines Davies, J. Henry Griffiths, Daniel Davies a Tudor Davies.



# Cyffyrddiad Duw Ar Waith

***gan Glyn Tomos***

Tydi'r cyfnodau clo ddim wedi bod yn hawdd i unrhyw un ohonom. Ydach chi yn cofio sut oedd hi ar gychwyn y clo mawr gyda'r rheol cyfyngu teithio i ddim mwy na phum milltir? I nifer oedd yn mwynhau mynd am dro yn y car neu fynd i gerdded mynyddoedd tu allan i'r pum milltir, roedd hi yn gyfnod rhwystredig a diflas iawn. Pan godwyd y cyfyngiadau, cododd calonnau nifer ohonom a braf oedd cael mynd ymhellach yn y car neu i gerdded. Wrth gwrs, mae sawl un hefyd wedi cerdded mwy nag erioed yn lleol ac wedi dod ar draws llefydd na wydden nhw oedd yn bodoli o'r blaen er eu bod yn enedigol o'r ardal. Dyma un o fanteision braf y cyfnod clo.

Pan godwyd y cyfyngiadau pum milltir fe benderfynom ni fel teulu fynd i ymweld â Chastell y Bere yn Nyffryn Dysynni, ger Tywyn, Meirionnydd. Gerllaw'r castell mae pentref bychan o'r enw Llanfihangel-y-Pennant. Mae'n lle hudolus a diddorol iawn.

Yno mae eglwys hynafol o'r enw **Eglwys Sant Mihangel,** ag iddi un ffenestr unigryw iawn. Fe'i gelwir yn ffenestr y gwahangleifion. Dyma un o'r ychydig eglwysi sydd yn dal gyda ffenestr o'r fath. Pwrpas y ffenestr oedd galluogi gwahangleifion i weld y gwasanaeth o'r tu allan. Oherwydd y clefyd nid oedd modd iddynt gael mynediad i'r gwasanaeth yn yr eglwys a'r unig ateb oedd edrych drwy'r ffenestr.

Wedi dod adra, dyma feddwl mwy am sefyllfa druenus y gwahangleifion a throi at Efengyl Luc (y bumed bennod) lle ceir hanes dyn oedd yn llawn o'r gwahanglwyf yn gweld Iesu, ac yn syrthio ar ei wyneb ac ymbil arno i'w lanhau. Sonnir weithiau am ddyn yn marw ar ei draed. Dyna'n llythrennol yw'r gwahanglwyf. Mae'n salwch dychrynllyd. Mae'r gwahanglwyf yn afiechyd sy'n ymosod ar nerfau'r corff. Yng nghyfnod Crist nid oedd iachâd o gwbl i'w gael. Ni ellid gwneud dim ond ceisio ei reoli trwy wahanu dioddefwyr oddi wrth weddill y boblogaeth. Unwaith y ceid cadarnhad fod person yn glaf o'r gwahanglwyf, byddai'n cael ei alltudio ar unwaith o bob cymdeithas â phobl eraill. Byddai'n rhaid i'r truan adael ei deulu a'i gyfeillion a'i gymdogaeth. Roedd gwaharddiadau llym yn cael eu gosod arnynt, gan fod eu clefyd mor heintus.

Wrth ddarllen yr hanes yma ni allwn lai na meddwl am y cyfnod anodd yr ydym ni yn byw ynddo gyda Covid-19. Dyma gyfnod lle nad oes modd i ni gysylltu â'n hanwyliaid, ddim yn gallu cael pobl i'n tai, nac ychwaith yn gallu cyffwrdd â neb tu allan i'n haelwyd ein hunain. Hefyd cyfnod lle mae drws ein haddoldai wedi bod ar gau i ni.

Beth allwn ei ddysgu o hyn oll? Un o'r pethau a ddysgwn yw beth bynnag ein hargyfyngau, mae Duw ar gael i wrando arnom ond i ni droi ato, ac mi wneith yntau estyn ei law tuag atom. Yn ei drallod a'i dristwch, fe drodd y gwahanglwyfus yn yr hanes at yr Iesu a chael ei lanhau. Fe aeth Crist mor bell ag estyn ei law ato a'i gyffwrdd, er iddo wybod bod cyflwr y gŵr yn heintus. Drwy wneud hyn roedd Crist yn dangos nid yn unig bod cyffyrddiad o'r fath yn gyfrwng i iacháu'r dyn, roedd hefyd yn arwydd o dosturi di-ofn Iesu, ac o bontio'r agendor enfawr oedd rhwng gwahangleifion a gweddill y gymdeithas. Cyffyrddiad yw hwn sydd yn glanhau, yn dangos cydymdeimlad ac yn cymodi.

Gallwn deimlo cyffyrddiad Duw ar waith yn y modd y mae pobl ar draws y byd wedi bod yn gofalu a chefnogi ei gilydd wrth ymateb i effeithiau Covid-19 ar unigolion a'u teuluoedd. Amlygir hyn yn y modd y mae holl staff gwasanaethau iechyd a chymdeithasol a gwirfoddolwyr yn lleol ac ar hyd a lled y wlad wedi ymateb o dan amgylchiadau tu hwnt o anodd i warchod iechyd a lles pob un ohonom. Er effaith heintus y feirws, rydym wedi gweld pobl yn rhoi eu bywydau ar y lein, i sicrhau bod popeth posibl yn cael ei wneud i warchod lles ac iechyd rhai sydd yn dioddef o Covid-19. Mae ein diolch yn enfawr iddynt.





# O'r Pen Yma gan Angharad Tomos

Dwi eisiau gwneud y golofn hon yn gyfoes. Sydd yn broblem braidd pan dwi'n ei sgwennu ar Ŵyl yr Holl Saint ar ddechrau Tachwedd. Fel arfer, gall rywun sôn am y Nadolig a'r Calan, achos yr un pethau sy'n digwydd efo'r rheini flwyddyn ar ôl blwyddyn.

Blaw mae eleni yn wahanol. Randros, dwi ddim yn gwybod beth fydd yn digwydd mewn tridiau hyd yn oed efo etholiad Arlywydd America. Wn i ddim be fydd yn digwydd ymhen wythnos, pan fydd y rheolau yng Nghymru yn llacio, heb sôn am beth ddigwydd mewn mis pan ddaw Lloegr (falle) allan o gyfyngiadau. Dolig? Flwyddyn Newydd? Does gen i ddim obadeia.

Ond falle nad ydi hynny'n beth drwg. Roedd seiliau ein byd yn arfer bod mor gadarn a synhwyrol. Roedd gennym reolaeth dros bopeth, ac roedd hynny'n rhoi sicrwydd a hyder rhyfeddol inni. A deud y gwir, rhoddai gymaint o sicrwydd i bobl fel eu bod yn troi ac yn deud, "Dydan ni ddim angen Duw yn yr oes hon, rydan ni'n gallu dibynnu ar ein grym ein hunain." A daeth yn arferiad i beidio troi at Dduw, ar wahân i adegau o salwch neu ddioddefaint.

Rŵan, dwi'n teimlo fel rhywbeth o un o gerddi Gwenallt[1],

> 'Ein llong yn tindroi yn y niwl, a'r capten a'r criw yn feddw.'

(efo'r capten yn yr achos hwn yn gyfeiriad at Brif Weinidog Prydain falle yn hytrach nag un Cymru!)

ac mae'r cwpled ar ddiwedd y trydydd pennill yn hynod gyfoes, bedwar ugain mlynedd wedi ei gyfansoddi,



> Nid oes na diafol nac uffern dan loriau papur ein byd,
> Diffoddwyd canhwyllau'r nefoedd a thagwyd yr angylion i gyd.'

Ie, oes ansicr yw hon, ac mae'n rhaid inni ddibynnu ar ein ffydd. Bob bore, wrth wynebu ansicrwydd diwrnod newydd, mae'n rhaid inni ymddiried yn Nuw a chredu 'Digon i'r diwrnod ei ddrwg ei hun' a dod i arfer efo'r syniad newydd nad oes modd trefnu ar gyfer heddiw ac yfory, heb sôn am drennydd neu dradwy.

Mae Gwenallt yn ei gyfleu yn well na fedra i fyth obeithio ei wneud, a dyma sut mae'r gerdd yn gorffen,

> 'Gosod, O! Fair, Dy Seren yng nghanol tywyllwch nef,
> A dangos â'th siart y llwybr yn ôl at Ei ewyllys Ef,
> A disgyn rhwng y rhaffau dryslyd, a rho dy law ar y llyw.
> A thywys ein llong wrthnysig i un o borthladdoedd Duw.'

Dwi'n credu y bydd y pennill hwn yn berthnasol i mi yn ddyddiol rhwng rŵan ac Ionawr 2021.

[1] Y Gristnogaeth o 'Ysgubau'r Awen'

# I'r Plant

Mae stori fach ynglŷn â chanhwyllau ar un o dudalennau'r Gwyliedydd yma. Chwiliwch amdani yna rhowch gynnig ar gopïo'r llun yma o gannwyll gan ddefnyddio'r sgwariau, a'i liwio.



